Cadwyn Bro

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com
Gorffennaf ac Awst 2019 *Rhif 094*

Fuoch chi erioed am dro rownd muriau tref Conwy? Maen nhw'n werth ei gweld! Wrth fynd am dro ar hyd-ddyn nhw rhyw noson ces i brofiad reit annisgwyl. Roedd yna wylan wedi gwneud ei nyth mewn cilfach rhwng y cerrig, a'r noson honno roedd hi wedi penderfynu mynd a'i chywion am dro ar hyd y wal. Mae gwylanod yn bla mewn tref glan môr, ond mae yna rywbeth digon ciwt am y cywion bach llwyd! Maen nhw'n drwsgl ac yn ddi-ymadferth – ac yn gwbl ddibynnol ar eu rhieni. Wrth fy ngweld fe synhwyrodd yr wylan fawr fod yna berygl i'w chywion. Dyma hi'n mynd a sefyll rhyngof fi a'r adar bach, a dechrau fy mygwth i â'i chri. Roedd hi fel tase hi'n dweud – 'watsha di dy hun, yr hen lwmp mawr a til' Roedd hi'n sgwario, bron fel rhyw focsiwr yn y cylch – chawn i ddim mynd heibio iddi. Dyma adnod i chi gnoi cil arni dros yr haf, o Salm 91:4: 'Bydd Duw yn cysgodi drosot â'i esgyll, a chei nodded dan ei adenydd; bydd ei wirionedd yn darian a bwcled'. Mae gofal aderyn dros ei gyw yn beth anhygoel i'w weld, ond cymaint mwy ydi gofal Duw dros y rhai sy'n trystio ynddo. Mae'r Cristion yn medru byw gan wybod am y cariad hwnnw, a phrofi Duw yn noddfa, yn le diogel, bob dydd. Nid byw i blesio eraill – na byw dan bwysau'n disgwyliadau'n hunain chwaith, ond byw gan wybod fod gennym Dad nefol sy'n gofalu drosom, sy'n gwybod ein llwybr cyn i ni ei gerdded. Yn ail hanner yr adnod mae beibl.net yn dweud fel hyn:

'mae'r ffaith fod Duw yn dweud y gwir
yn darian sy'n dy amddiffyn di.

Yng ngair Duw rydyn ni'n dysgu am gariad tu hwnt i bob cariad dynol – cariad Duw atom yn Iesu Grist. 'Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll'. Dyna sy'n fwyaf anhygoel am Grist-nogaeth – mae'n dweud wrthym ni fod ffordd wedi ei hagor i bob un sy'n credu i faddeuant a bywyd newydd â Duw – nid trwy'n gallu na'n dawn, ond trwy gariad drud. Yn hynny mae yna sicrwydd a diogelwch, o dan gysgod adain Duw ei hun.

DIGWYDDIADUR

SUL GŴYL – Gwasanaeth yng ngofal Meilir Geraint yn Neuadd Trefnant am 10 y.b, gyda gemau a phicnic i ddilyn. Croeso mawr i bawb!

CINIO'R FRO – Cynhelir y cinio nesaf Dydd Gwener Medi 13eg yn ysgoldy'r Capel Mawr.

RHAGHYSBYSIAD
Rydym wedi bod yn lwcus iawn i sicrhau cwmni Glyn Williams, Borth y Gêst ar nos Wener 4ydd o Hydref, yn Capel Llanrhaeadr am 7yh, yn dweud ei hanes ac ambell i gân . Bydd croeso mawr i unrhyw un o'r Fro ymuno â ni ar y noson yma, yng Nghapel y Pentre. Pris £5

TREF DINBYCH - MIS AWST

Dyma'r drefn ar gyfer y gwasanaethau undebol a gynhelir fel a

ganlyn am **10am:-**

Dydd Sul, Awst 4 - Y Capel Mawr -Y Parch. Robert Parry, Caer

Dydd Sul, Awst 11 - Lôn Swan – Y Parch. Ifor Jones, Bae Colwyn

Dydd Sul, Awst 18 - Y Fron – Mr Gwyn Evans

Dydd Sul, Awst 25 - Pendref – Y Parch. Tudur Rowlands, Rhewl

Ni chynhelir oedfaon yn y nos yn ystod mis Awst

TALU AM BARCIO AR Y SUL

Cawsom ar ddeall yn swyddogol gan y Cyngor Sir y bydd yn rhaid talu am barcio ar y Sul yn holl feysydd parcio'r dref o **Fedi 22ain.** ymlaen.
Daw'r trefniant presennol - sy'n caniatáu parcio am ddim i rai sydd yn mynychu oedfaon - i ben ar y diwrnod hwnnw.

DATHLU 150 ADEILADU CAPEL Y BRWCWS

Gwasanaeth dathlu yng Nghapel y Brwcws ar Orffennaf 14eg am 2 y.p. dan ofal Andras.
Yn dilyn y gwasanaeth bydd 'Tê y Dathlu' yn Melin y Brwcws am 3.30 y.p.
Croeso cynnes i gyn-aelodau a rhai efo cysylltiadau â'r capel.
Oherwydd rheolau iechyd a diogelwch – ac er mwyn archebu digon o fwyd – cysylltwch efo'ch enwau os gwelwch yn dda:

CAROLYN J THOMAS, YSGRIFENNYDD YR EGLWYS – 01745 814340
NEU E. DILWYN JONES – TRYSORYDD – 01745 813195

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Gorffennaf 7fed
10.00 - Sul Gŵyl – Neuadd Trefnant
Dydd Sul, Gorffennaf 14eg
10.00 – Parch Bernard Thomas
Dydd Sul, Gorffennaf 28ain
2.00 – Parch Andras Iago

Ni gynhelir gwasanaethau yn ystod mis Awst

Rydym yn falch iawn o gael llongyfarch Arthur Jones sydd wedi bod yn flaenor am 50 mlynedd ac wedi derbyn tystysgrif yn Llanfair PG yn ddiweddar.

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Gorffennaf 7ed
Sul Gŵyl – Neuadd Trefnant am 10.00
Dydd Sul, Gorffennaf 14eg
Gwasanaeth y Dathlu
dan arweiniad y Parch. Andras Iago am 2.00
Tê y Dathlu i ddilyn ym Melin Brwcws am 3.30
Dydd Sul, Gorffennaf 21ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Trefor Lewis am 2.00
Dydd Sul, Gorffennaf 28ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Glyn Thomas am 2.00

Cydymdeimlwyd a Gwilym ac Edna Williams yn dilyn marwolaeth chwaer Edna sef Menna Parry yng Nghanada.
Llongyfarchiadau i Beca Fflur Edwards ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd - daeth Beca yn ail ar yr Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6. Cafodd hefyd y wobr gyntaf am waith celf.

Mis Awst. - gweler trefniadau undebol capeli'r dref.

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul, Gorffennaf 7fed am 10 yb
Sul Gŵyl yn Neuadd Trefnant

Dydd Sul, Gorffennaf 14eg am 9.45 yb
Mr Huw Foster Evans
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Mary
Emyn a Darllen Plant - Penybryn
Organ - Alaw
Blodau - Helen Smith

Dydd Sul, Gorffennaf 21ain am 9.45 yb
Parch Andras Iago
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen - Gwenno/Dafydd
Emyn a Darllen Plant - Ysgubor Efa
Organ - Glenys
Blodau - Gwenno

Dydd Sul Gorffennaf 28ain am 9.45 yb
Trefniant lleol
Organ - Ann
Blodau - Iona

Y GYMDEITHAS
Nos Fercher, Gorffennaf 3ydd
Recordio Rhaglen "Galwad Cynnar" gyda Geraint Pennant.
Nos Wener, Gorffennaf 5ed am 6.30 y.h.
Barbeciw ac adloniant yng nghofal Karen a Cemlyn

MIS AWST
Dim gwasanaethau- gweler Cadwyn Bro.

GELLIFOR

Dydd Sul, Gorffennaf 7fed
Sul Gŵyl – Neuadd Trefnant
Dydd Sul, Gorffennaf 14eg
11.00 - Mr Huw F. Evans
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Ruth
Offeryn – Margaret
Blodau - Erina
Dydd Sul, Gorffennaf 21
11.00 - Gweinidog
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Llinos
Offeryn - Richard
Blodau – Erina
Dydd Sul, Gorffennaf 28
Trefniant lleol

Y FRON

Llywydd y mis – Dilys Davies

Dydd Sul, Gorffennaf 7fed
10.00 – Sul gŵyl yn Neuadd Trefnant gyda Meilyr Geraint
Dydd Sul, Gorffennaf 14eg
11.00 – Capel Mawr – Bugail oedfa Gymun
5.30 – Fron - Bugail
Dydd Sul, Gorffennaf 21ain
10.00 – Fron – Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn
5.30 – Capel Mawr – Parch Trefor Lewis
Dydd Sul,Gorffennaf 28ain
10.00 - Capel Mawr – Parch Glyn Thomas, Abergele
5.30 – Fron – Parch Glyn Thomas

Casglyddion – Mr Aelwyn Lloyd a Mr John Geraint Jones
Organyddion – Iona Edwards, Eiri Jones a Megan Williams
Croeshawu:
14eg – Gaynor Prew
21ain – Erfyl Williams
28ain – Wendy Lloyd Jones
Rhoddwyr y Blodau -
14eg –
21ain-
28ain – Nia Angharad Jones

Anfonwn ein cofion at yr aelodau sydd wedi treilio cyfnod yn yr Ysbyty ac at y rhai sydd ar hyn o bryd mewn cartrefi preswyl.

SULIAU MIS AWST
Oedfaon undebol yn y bore yn ystod mis Awst am 10 o'r gloch.
Awst 4ydd – Capel Mawr – Parch Robert Parry,Caer
Awst 11eg – Lôn Swan – Parch Ifor Jones, Bae Colwyn
Awst 18fed – Fron – Mr Gwyn Evans, Llysfaen
Awst 25ain – Pendref – Parch Tudur Rowlands, Rhewl

Y CAPEL MAWR A SEION

DALIER SYLW

**Cofiwch pan fo'r Gweinidog gyda ni yn y bore - yn Y Capel Mawr neu'r Fron - bydd yr oedfa am 11am.

Dydd Sul, Gorffennaf 7
10am – Oedfa'r Fro yn Nhrefnant – Sul Gŵyl

Dydd Sul, Gorffennaf 14
**11am – Y Capel Mawr – Y Bugail. Gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon.
5.30pm – Y Fron – Y Bugail

Dydd Sul, Gorffennaf 21
10am – Y Fron – Y Parch. Trefor Lewis, Hen Golwyn
5.30pm – Y Capel Mawr – Y Parch. Trefor Lewis, Hen Golwyn

Dydd Sul, Gorffennaf 28
10am – Y Capel Mawr – Y Parch. Glyn Thomas, Abergele
5.30pm – Y Fron – Y Parch. Glyn Thomas, Abergele

Llywydd Y Mis: – Mrs Nerys Ann Roberts
Casglyddion/ Wrth y Drws:- Gwirfoddolwyr o blith y gynulleidfa
Organydd/ Cyfeilydd:-
Gorffennaf 14 - Mrs Catrin Warren
Gorffennaf 21 - Mrs Dorothy Rogers
Gorffennaf 28 - Mrs Catrin Warren
Blodau
Gorffennaf 14 - Mrs Mair Davies
28 – Mrs Kitty Williams
Llestri'r Cymun: Mrs Carys Jones
Llety'r Pregethwyr:-
Gorffennaf 21 -Y Capel Mawr
Gorffennaf 28 – Y Fron

DERBYN AELOD NEWYDD - Yn ystod yr oedfa foreol ar Fai 19eg, gyda'r Gweinidog yn gweinyddu, derbyniwyd Shian Hughes yn aelod cyflawn yn yr eglwys. Bu Shian yn cydaddoli â ni ers peth amser bellach, ac eisoes cymerodd ran flaenllaw yng ngweithgareddau'r Eglwys Bresbyteraidd yn y Fro.
Croeso cynnes iddi atom.

LLONGYFARCHIADAU - Llongyfarchiadau i Alwena ac Eirwyn Edwards ar ddod yn nain a thaid unwaith eto gyda genedigaeth Amelia yn ddiweddar. Hefyd Geraint Lyall a'i briod Siwan ar enedigaeth eu mab Deio Edward.

Yr Aelwyd
Aethom ar ein trip blynyddol ar yr 11ed o Fehefin i'r Bala eleni. (Yn anffodus nid "y Bala dirion deg")!
Ond yn ffodus yn y Coleg y buom yn treulio y rhan fwya o'r dydd, ac roedd y

croeso yno yn gynnes iawn. Mae Doctor Owain a Sian Edwards yn wardeiniaid yno ac yn byw ar y safle, a Sian oedd yno i'n croesawu ac i ddweud hanes y gweithgareddau yno. Mae amryw ar y staff, a hefyd rhai sydd ar eu blwyddyn gap - fe siaradodd Lydia a Rhiannon am eu gwaith hwy, a gymaint o fudd maent yn ei gael o fod yno, ac wedi dewis aros blwyddyn ychwanegol. Siaradodd merch Sian hefyd am ei phrofiad hi o rannu ei chartref a'i bywyd yn y Coleg mae hithau yn cael budd mawr o fod yno. Mae Kirsty McCall yn gogyddes arbennig o dda - fel y cawsom brofi! Roedd yn ginio werth chweil.

Mae'r Coleg yn Ganolfan Plant ac Ieuenctid yr Eglwys Bresbyteraidd,ac yn cynnig llawer o wethgareddau i'r gwahanol oedrannau. Maent yn mwynhau gymaint fel bod y cyrsiau a'r gwyliau yn llenwi yn fuan iawn. Mor braf oedd clywed am y gwaith da yma, a'r plant yn dysgu bod yn Gristnogol. Gresyn na fyddai hanesion fel hyn yn ein papurau dyddiol. Trist yw meddwl mai newyddion am erchylltra sy'n gwerthu papurau.

Diolch i Tom Williams am wneud trefniadau trylwyr fel arfer. Ar waetha'r glaw di-stop gaethon ni, roedd yn drip llwyddianus iawn eto. Diolch hefyd i Emyr Rees, dreifar Cart y Plwyf am ein cludo yn ddiogel yno, a galw yn y Ganolfan Arddio ger Corwen am baned ar y ffordd adre, a phrynu planhigion i un!

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Gorffennaf 7fed
10.00 - Ndeuadd Trefnant - Sul Gŵyl y Fro
Dydd Sul, Gorffennaf 14eg
9 45 - Pentre - Mr Richard Jones
Dydd Sul, Gorffennaf 21ain
9.45 - Pentre - Parch John Owen
Dydd Sul, Gorffennaf 28ain
9.45 – Prion - Gweinidog

Awst 2019
Dim gwasanaethau yn ystod Mis Awst.
TRIP MIS MEDI - Bydd ein trip eleni yn mynd i Tŷ Mawr Wybrnant (catref William Morgan) ar ddydd Sul 15fed Medi, ddim ar yr 8fed fel mae yn ymddangos yn y Suliadur, cychwyn o'r capel am ddeg y bore, mwy o fanylion eto.
COFION - Ein cofion at Mr John R Hughes sydd nawr yn yr Inffirmari ar ôl cyfnod yn ysbyty Glan Clwyd. Dymuniadau gorau iddo ar ei benblwydd yn 103 ar ddechrau mis Mehefin. Roedd wrth ei fodd yn cael cwmni plant yr Ysgol Sul ar fore Sul yn dilyn ei benblwydd, a braf ei weld yn ymuno yn y canu gyda nhw. Diolch i staff yr inffirmari am eu croeso.

Dymunwn wellhâd buan i Eryl Plas Onn ar ôl teulio amser yn Ysbyty Glan Clwyd; i Geraint Pentre Pella ar ôl ei lawdriniaeth yn Gobowen, ac i Mrs Nerys Harries ar ôl ei llawdriniaeth yn Glan Clwyd.

COLLI AELOD - Ar ôl cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd, trist iawn gennym golli Eirlys Mîn y Maes gynt. Roedd Eirlys wedi bod yn aelod ffyddlon iawn yma yn y Capel, yr Ysgol Sul, y Gymdeithas, a'r Chwiorydd, ac yn ymfalchïo pan ennillwyd y darian Gwyl Ysgol Sul, o dan arweiniad Eirlys pan oedd yn Arolygwr yr Ysgol Sul yn 1963. Roedd yn hoff iawn o gerddoriaeth, yn enwedig clasurol, ac yn alto da. Roedd yn groesawus dros ben, yn ddiddorol ei sgwrs ac yn hwyliog. Ar ôl ymddeol fel prif athrawes yn Ysgol Rhydgaled, Groes, roedd yn gefnogol dros ben i'w nith, roedd wrth ei bodd yn gwarchod yr hogie a hwythau hefyd yn mwynhau ei chwmni - roedd hi fel nain iddynt. Rydym yn cydymdeimlo yn fawr gyda ei nith a'i nai, a'u plant; a hefyd gyda theuluoedd Pentre Pella, Dyffryn a Pentre Llech ar golli cyfnither annwyl.

CHWIORYDD - Er gwaetha'r tywydd, cawsom bnawn arbennig efo'n gilydd a'r gymuned ehangach yn y "Laundry" ar achlysur te pnawn wedi ei drefnu gan ffrindiau Tenovus. Braf iawn oedd cael cefnogi'r elusen teilwng yma, a da clywed eu bod wedi gwneud elw o bron i £1800.

CYMORTH CRISTNOGOL - Cyfanswm y casgliad gafodd ei gasglu yn cynnwys Capeli Prion, Saron, Peniel ac yma yn y Pentre yw £992. Diolch i bawb sydd wedi bod yn rhannu'r amlenni, a wedi rhoi rhoddion, mae wir yn cael ei werthfawrogi.

RHAGHYSBYSIAD

Rydym wedi bod yn lwcus iawn i sicrhau cwmni Glyn Williams, Borth y Gêst ar nos Wener 4ydd o Hydref, am 7yh, yn dweud ei hanes ac ambell i gân. Bydd croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni ar y noson yma, yng Nghapel y Pentre Pris £5

Y GLYN

Dydd Sul, Gorffennaf 21ain

2 o'r gloch - cynhelir oedfa gyda'r Parch Andras Iago

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Brenda, Pen Bryn ar ol ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

TREFNANT

Llywydd y Mis - TUDOR JONES

Dydd Sul, Gorffennaf 7fed
10.00 - SUL GŴYL Y FRO - NEUADD Y PENTREF, TREFNANT
Dydd Sul, Gorffennaf 14eg
9.45 - Gwasanaeth y Cymun gan Y Gweinidog
- bydd Aelodau Eglwys Seilo, Caernarfon,
yn ymuno a ni yn y gwasanaeth hwn - paned i ddilyn.
3.30 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau - Gwen Roberts
Dydd Sul, Gorffennaf 21ain
10.00 - Parchedig Dafydd Rees Roberts 11.15 YSO
3.30 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau - Rhian Hughes
Dydd Sul, Gorffennaf 28ain
TAITH YR EGLWYS - Byddwn yn ymuno mewn oedfa gyda chynulleifa Eglwys Unedig Llandudno
am 10.30 a.m . Gwasanaethir gan y Parchedig Jenny Heard. Croeso i bawb ymuno.

Cynhelir Ysgol Sul y Plant yn ystod gwasanaeth y bore dan ofal Angharad Ellis ac Anwen Evans.

TE MEFUS - Dymuna Rhian Hughes, Bet Roberts a'r tîm i gyd ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y prynhawn hwn eto eleni – mae'r rhestr yn rhy fawr i'w henwi ond mae brwdfrydedd y tîm yn heintus ac mae'r canlyniad yn deilwng o'r ymdrech. Trosglwyddir £2,000 i Gronfa Ymchwil Cancr Cymru gyda diolch i bawb am gefnogaeth arbennig a phrynhawn cymdeithasol hyfryd yn y Neuadd. Diolch i bawb.
DYMUNIADAU GORAU - i'n haelodau i gyd gyda chofion arbennig at y rhai sy'n methu'r oedfaon a chymdeithas y Suliau ar hyn o bryd.

Gwasanaethau mis Awst

Llywydd y Mis - DILYS HUGHES

Dydd Sul, Awst 4ydd
10.00 - Gwasanaeth Teuluol
Blodau - Beti Hughes
Dydd Sul, Awst 11eg
10.00 - Mr Dewi Williams
Blodau - Helen Evans
Dydd Sul, Awst 18ed
10.00 - Mr Elwyn Ashford Jones
Blodau - Rhiannon Wynne
Dydd Sul, Awst 25ain
10.00 - Parch R.W. Jones
Blodau - Hafina Thomas

Newyddion rhifyn Medi o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Awst 23in
e-bost : **meinididdos13@gmail.com**
neu: 01745890417